Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Headteacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 🖷 01443 219596
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk

Gorffennaf, 2014

Annwyl Riant / Warcheidwad,

1. RHAI DYDDIADAU A THREFNIADAU PWYSIG DIWEDD A DECHRAU TYMOR

Dydd Gwener	18 Gorffennaf	Ysgol yn gorffen i ddisgyblion a'r bysiau'n gadael safle'r ysgol am **1.30 y.p.**

2. TREFNIADAU DECHRAU TYMOR YR HYDREF 2014:

Dydd Llun	**1 Medi**	Diwrnod Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) **Ysgol ar gau i ddisgyblion.**
Dydd Mawrth	**2 Medi**	**Blwyddyn 7 a 12** yn dychwelyd i'r ysgol. Bysiau'n gadael y safle am 12.30 y.p.
Dydd Mercher	**3 Medi**	**POB** blwyddyn yn dychwelyd i'r ysgol.

3. Dechrau tymor

Ar ddechrau'r tymor ym mis Medi bydd Blwyddyn 7 yn mynd i Langrannog ar eu cwrs iaith a bydd gweddill yr ysgol yn cael cyflwyniad i waith y flwyddyn mewn sesiynau estynedig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion flasu sgiliau bydd eu hangen arnynt ar gyfer y cam nesaf o'u rhaglen ddysgu. Bydd y rhaglen lawn ar wefan yr ysgol ar ddechrau'r tymor newydd.

4. 'PASS' BWS

Mae'r adran Trafnidiaeth Gartref Ysgol wedi ein hysbysu y bydd angen i ddisgyblion ddefnyddio eu 'pass' bws presennol ym mis Medi hefyd. Felly, mae angen ei gadw'n ddiogel ar gyfer dechrau'r tymor!

5. Arweinwyr Cynnydd

Arweinwyr Cynnydd 2014-2015

Blwyddyn 7	Mrs Mairwen Price	Blwyddyn 8	Mr Dylan Hughes
Blwyddyn 9	Mr Aled Rogers	Blwyddyn 10	Ms Eleri Richards
Blwyddyn 11	Ms Menna Lewis	Blwyddyn 12/13	Ms Menna Thomas

6. Ac yn gyffredinol . . .

A hithau'n tynnu tuag at ddiwedd y tymor, ga i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barod yn ystod y flwyddyn. Bu'n flwyddyn brysur, lwyddiannus a llawn ac ymfalchïwn yn llwyddiannau di-ri ein disgyblion a'n hathrawon brwd ac ymroddgar.

Ar ddiwedd y tymor hwn, byddwn yn ffarwelio gyda rhai aelodau o staff. Bydd Mr. Ryan Griffiths o'r Adran Dylunio a Thechnoleg yn ymddeol ar ôl dros 30 blynedd o ddysgu. Bydd Mrs Liz West, Pennaeth Cynorthwyol hefyd yn ymddeol ar ôl 27 mlynedd. Dymunwn ymddeoliad hapus i'r ddau ohonynt. Yn ogystal, hoffwn dymuno'r gorau i'r athrawon eraill sy'n ein gadael ni eleni:

Mrs M Iorwerth
Mrs N Wall
Miss J Williams
Mrs Sam Thomas

Dymuniadau gorau i'r staff cynorthwyol canlynol hefyd:

Ms. J Rees
Miss A Jones
Miss Simms

Ga i fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno gwyliau hapus a diogel i chi a'ch teulu. Ymlaciwch a mwynhewch gyda'ch gilydd.

Cofiwch hefyd . . . Canlyniadau Arholiadau!

SU ac UG:	**Dydd Iau, 14 Awst**
TGAU a chymwysterau cyfatebol	**Dydd Iau, 21 Awst**

Yn gywir,

Mrs. Angela Williams
Pennaeth

Campws Cymunedol Gartholwg Community Campus